



Adroddiad Cyfarfod

08:06:22

Taith i Lerpwl

Bore Mercher Mehefin 8fed ymunodd ffrindiau ac aelodau'r gangen ar y daith i gloi gweithgareddau'r gangen i Lerpwl. Ein ymweliad cyntaf oedd yn Oriel Lady Lever yn Port Sunlight. Roeddem wedi gwirioni at y pentref hynod a adeildwyd gan William Lever o 1888 ymlaen ar gyfer y gweithwyr yn ei ffatri sebon. Roedd y pentref yn weledigaeth William Lever o greu pentref addas i'w weithwyr, roedd dwr poeth ac oer yn y tai, ystafell ymlochi a dwy neu dair ystafell wely. Yn y pentref adeiladwyd ysgol, Eglwys, theatr, neuadd bentref, pwll nofio allan a thu mewn, ac ysbyty fach ynghyd a gorsaf drennau. Braff oedd mynd heibio'r ysgol a gweld y plant allan yn chwarae yn yr iard o hyd.

Cafodd pawb gyfle i weld y llun enwog Salem a gomisiynwyd gan Lever ac a beitiwyd gan Sydney Curnow Vosper yn 1908. Roedd amrhyw yn cofio gweld print o'r llun yng nghartref rhieni neu nain a taid ers talwm. Rhanwyd y printiau yng Nghymru wedi i'r bobl hel talebau wrth brynnu'r 'Sunlight Soap' ac yna cael y print gan y cwmni.

Symudodd y bws ni i Woodside ger Birkenhead lle caswsom daith hyfryd i fyny ac i lawr y Mersi cyn glanio yn Pier Head yn Lerpwl. Orig neu ddwy o amser i siopa yn y ddinas cyn cychwyn am adre.

Diolch arbennig i Derek y gyrrwr ac i gwmni Arvonnia am eu gofal a'r trefniadau.

Diolchodd Anne Elis i'r aelodau am eu ffyddlondeb i'r holl weithgareddau yn ystod y flwyddyn a diolch hefyd i Cyngor Gwynedd ac i'r Loteri Genedlaethol am y grant wnaeth ariannu'r trip a'r bore Coffi Gwyl Dewi.

Cyhoeddwyd fod taith gerdded yn cael ei threfnu gan y Pwyllgor Rhanbarth ar y 5ed Gorffennaf yn cychwyn o Lanberis am 1.00 a cherdded i Penllyn a chael paned yn y Caban yn Brynrefail. Enwau os oes diddordeb i Liz, Gwyneth neu Anne cyn 30 Mehefin.

Llongyfarchwyd Anita sy'n dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis.

Dymunwyd yn dda i Mair Price a'i thim wrth drefnu gweithgareddau'r flwyddyn nesaf. Diolchwyd hefyd i Rhianwen, Pat ac Olwen am eu cyfraniad i'r raffl. Mae'n diolch yn fawr hefyd i Jen am dynnu'r holl luniau ym mhob

gweithgaredd a'u rhoi ar wefan Merched y Wawr, Bethel
(www.mywbethel.org)